# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU [[F1]A CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG] A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH[[F2]: PRIF GYNGHORAU]

*Pwyllgorau llywodraethu ac archwilio prif gynghorau*

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Rhn. 6 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(1)**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn Rhn. 6 Pnd. 1 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(2)**

### 115 Enw newydd ar bwyllgorau archwilio a'u swyddogaethau newydd

(1) Mae adran 81 o Fesur 2011 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Pwyllgorau llywodraethu ac archwilio prif gynghorau. (See end of Document for details)*

(2) Yn is-adran (1), yn lle "("pwyllgor archwilio")" rhodder "("pwyllgor llywodraethu ac archwilio")".

(3) Ym mharagraff (c) o is-adran (1), ar ôl "rheolaeth fewnol" mewnosoder ", asesu perfformiad".

(4) Ar ôl paragraff (d) o is-adran (1) mewnosoder—

"(da) i adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol,

(db) i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol,".

(5) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) Gweler Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu) am swyddogaethau pellach pwyllgorau llywodraethu ac archwilio."

(6) Mae Atodlen 10 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Pwyllgorau llywodraethu ac archwilio prif gynghorau.